**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 02.02.26 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb parthed Diweddariadau blynyddol i ganllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i’r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy’n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella’r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw’r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru canllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru trwy adolygiad blynyddol systematig.

Mae ein tystiolaeth arolygu a thematig yn dangos bod dysgwyr yn elwa pan fydd cwricwla yn sicrhau cydbwysedd rhwng dyfnder pwnc, cynnydd, arfer gref yn yr ystafell ddosbarth a disgwyliadau asesu clir. Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth arolygu ac adroddiadau thematig diweddar yn dweud wrthym fod gormod o amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu, cydlyniant y cwricwlwm a manylder disgyblaeth, yn enwedig yn y sector uwchradd, sy’n aml yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion. Mae’r heriau system ehangach hyn yn ffurfio ein barn am y canllawiau drafft. Ar draws ysgolion, rydym hefyd wedi nodi nad oes dealltwriaeth ddigon cryf ymhlith arweinwyr ac athrawon o ddisgwyliadau ym mhob maes dysgu a bod hyn yn cyfrannu at ostwng disgwyliadau mewn rhai ysgolion.

Rydym yn croesawu’r disgwyliadau cryfach ynghylch dysgu gwyddoniaeth, yr eglurder am y cymwysterau sydd ar gael o 2027, a’r gyfatebiaeth rhwng trefniadau adrodd a Hawl i Ddysgu 14–16. Fodd bynnag, mae sawl maes lle byddai mwy o eglurder yn cefnogi ysgolion yn fwy effeithiol, yn enwedig o ran mynediad teg at ddarpariaeth, cydraddoldeb trwy gyfrwng y Gymraeg, llwybrau cynnydd ac ystyriaethau gweithredu ymarferol.

**Negeseuon allweddol a galwadau polisi:**

- Sicrhau mynediad teg at ddarpariaeth gwyddoniaeth o ansawdd uchel, yn cynnwys gwyddoniaeth driphlyg, ni waeth beth yw maint yr ysgol, y cyfrwng, na chyfyngiadau staffio.
- Cryfhau disgwyliadau am gydraddoldeb trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl gymwysterau newydd, yn cynnwys darparu adnoddau a threfniadau adrodd.
- Darparu arweiniad a chymorth cliriach ar lwybrau cynnydd, yn enwedig o gyrsiau trwm gwyddoniaeth ddwbl ac asesiadau nad ydynt yn arholiad (NEA) i astudio ôl-16 ac ar draws llwybrau galwedigaethol.

- Darparu canllawiau amserol ar gyfer trefniadau adrodd 2027, yn cynnwys diffiniadau, enghreifftiau a thempledi dwyieithog.
- Sicrhau bod trefniadau adrodd yn cefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant manwl gywir i gefnogi arweinwyr yn hytrach nag ychwanegu baich gweinyddol diangen.
- Parhau i fonitro a chyhoeddi llwybrau cynnydd ar gyfer yr holl gymwysterau er mwyn gallu gwerthuso effaith newidiadau cwricwlaidd ac arholiadau.

Adolygu'r cydbwysedd rhwng yr amser sydd ei angen ar gyfer addysgu a dysgu a'r hyn a wnaed yn angenrheidiol gan ofynion asesu mewn rhai cymwysterau.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**C1: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n glir am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cymwysterau gwyddoniaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed, yn dilyn penderfyniad gan Cymwysterau Cymru i barhau i gynnig gwyddoniaeth driphlyg?**

**Yn cytuno rhywfaint**

Mae'r canllawiau drafft yn amlinellu disgwyliad cenedlaethol clir y dylai pob dysgwr ddilyn cymwysterau gwyddoniaeth sylweddol, gyda dyfarniad dwbl Y Gwyddorau fel y prif lwybr a Gwyddoniaeth Driphlyg yn cael ei chadw ar gyfer y rhai sy'n barod i'w hastudio. Mae'r eglurhad hwn yn fuddiol. Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth yn dangos bod manylder, trefn ac ansawdd addysgu gwyddoniaeth yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion uwchradd. Lle nad yw'r disgwyliadau hyn yn cael eu hymgorffori'n gadarn, gall cynnydd i astudio gwyddoniaeth yn y sector ôl-16 fod yn anghyfartal. Yn ymarferol, gall cyfyngiadau'r gweithlu a llai o gymorth sy'n benodol i bwnc rwystro darpariaeth, yn enwedig mewn lleoliadau llai a lleoliadau cyfrwng Cymraeg, sy'n achosi perygl o ran mynediad anghyfartal oni bai yr eir i'r afael yn eglur â lliniariadau.

**Nodwch yma ba wybodaeth neu gymorth ychwanegol i'r canllawiau fframwaith fyddai'n fuddiol:**

- Disgwyliadau clir am gynnydd i mewn i gyrsiau gwyddorau Uwch Gyfrannol / Safon Uwch o wahanol lwybrau cymwysterau.
- Canllawiau ar sicrhau mynediad teg at wyddoniaeth driphlyg a chymwysterau amgen.
- Cadarnhau argaeledd manylebau, asesiadau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar yr un pryd.

**C2: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn ei gwneud yn glir y bydd TAAUau, Cyfresi Sgiliau a chymwysterau Sylfaen ar gael o fis Medi 2027?**

**Yn cytuno rhywfaint**

Mae'r llinell amser ddatganedig ar gyfer argaeledd TAAUau, Cyfresi Sgiliau a chymwysterau Sylfaen o fis Medi 2027 yn rhoi mwy o eglurhad buddiol i ysgolion. Fodd bynnag, bydd angen i ysgolion gael mwy o wybodaeth a chymorth ymarferol ar ddiben, modelau asesu, a llwybrau cynnydd y cymwysterau hyn (yn cynnwys i L2+/L3 a phrentisiaethau), y bydd angen iddynt fod ar gael yn ddwyieithog ac mewn modd amserol. Mae nifer o ddarparwyr yn dweud y byddent yn croesawu pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu'n fwy prydlon. Byddai canllawiau i ysgolion ar sut i ddewis y llwybr dysgu mwyaf priodol ar gyfer disgyblion o fewn lleoliadau ysgol a thu hwnt yn fuddiol, hefyd. Mae ein tystiolaeth arolygu yn dangos bod y diffyg asesu trylwyr ar gyfer ychydig o gymwysterau wedi golygu bod rhai darparwyr yn cofrestru nifer o ddysgwyr ar gyfer cymwysterau y tybir eu bod yn haws i gynyddu'r sgôr 9 pwynt wedi'i chapio. Mae pryderon yn parhau ynghylch argaeledd gweithlu ac adnoddau i ddarparu ystod ehangach o gymwysterau tra'n cadw darpariaeth o ansawdd da. Bydd angen adolygu tegwch mewn priodoldeb gallu dilyn y gyfres hon o gymwysterau, a llwyddo ynddynt, yn gyson.

**Nodwch yma ba wybodaeth neu gymorth ychwanegol i'r canllawiau fframwaith fyddai'n fuddiol:**

- Canllawiau a chymorth cliriach i ysgolion ynghylch addasrwydd cyrsiau ar gyfer gwahanol ddysgwyr o fewn eu lleoliadau
- Hyfforddiant i'r gweithlu i gefnogi cyflwyno'r cymwysterau hyn, gan sicrhau bod hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gael ar yr un pryd
- Cymorth ar gyfer ysgolion i helpu sicrhau gweithlu ac adnoddau addas ar gyfer cyflwyno o ansawdd da, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygiadau canoledig a rheolaidd o nifer y dysgwyr sy'n dilyn y llwybrau hyn, a'u cynnydd, o fewn ysgolion ac ymlaen i gamau nesaf dysgwyr

**C3: A ydych chi'n cytuno bod y diweddariadau i'r canllawiau yn ei gwneud yn glir bod trefniadau adrodd yn y dyfodol ar gyfer dysgu 14 i 16 wedi cael eu creu o amgylch yr Hawl i Ddysgu 14 i 16?**

**Yn cytuno rhywfaint**

Mae'r canllawiau'n cysylltu adrodd yn y dyfodol yn glir gyda'r Hawl i Ddysgu 14–16, gan helpu sicrhau bod diwygiadau'r cwricwlwm cenedlaethol ac asesu yn cyfateb yn fwy cydlynus. Fodd bynnag, mae angen canllawiau manylach a mwy amserol ar ysgolion i roi trefniadau adrodd ar waith a deall mesurau perfformiad yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Mae ein tystiolaeth arolygu'n dangos bod ysgolion yn cael trafferth â hunanwerthuso manwl gywir a chynllunio gwelliant yn canolbwyntio ar effaith. Mae mesurau perfformiad a disgwyliadau adrodd rhy gymhleth neu aneglur yn cynyddu pwysau gweinyddol ac yn cyfyngu ar allu darparwyr i werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn fanwl gywir.

Byddem yn cefnogi trefniadau adrodd sy'n cynnwys ystod eang o fesurau, ac sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i ffactorau cyd-destunol i gynorthwyo arweinwyr i werthuso'u hysgolion yn effeithiol. Yn ychwanegol, byddem yn cefnogi ffocws sy'n briodol o gryf ar ddeilliannau disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

**Nodwch yma ba wybodaeth neu gymorth ychwanegol i'r canllawiau fframwaith fyddai'n fuddiol:**

- Eglurder ynghylch sut mae'r trefniadau adrodd yn cyd-fynd â phrosesau gwella cenedlaethol
- Canllawiau clir i arweinwyr ar sut gallai ystod y mesurau data lywio eu hunanwerthuso a'u gwaith gwella
- Eglurder ynghylch mesurau perfformiad a sut bydd safonau'n cael eu hystyried yn y sector cyn 16 ac ôl-16

**C4: A ydych chi'n cytuno bod y diweddariadau i'r canllawiau yn ei gwneud yn glir y bydd trefniadau adrodd newydd yn cael eu cyflwyno yn 2027?**

**Cytuno'n gryf**

Mae'r canllawiau'n datgan yn glir y bydd y trefniadau adrodd newydd yn cael eu cyflwyno o 2027. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y wybodaeth am union natur y trefniadau adrodd yn cael ei rhannu mewn da bryd, gan roi digonedd o amser i ddarparwyr ymgyfarwyddo â nhw cyn eu cyflwyno. Os felly, dylai hyn roi rhybudd buddiol i ysgolion a chyd-fynd â llinell amser carfan Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, gan na chadarnhawyd eto beth fydd y trefniadau adrodd, ni allwn roi sylwadau manylach yma.

**C5: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol yr adran hon o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

- Gofynnwch i gyrff dyfarnu ryddhau'r holl fanylebau, asesiadau ac adnoddau ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg, a fydd yn parhau i gefnogi cynnydd yn y Gymraeg o fewn llwybrau pwnc.
- Dylid monitro a chyhoeddi'r nifer sy'n dilyn cymwysterau yn ôl cyfrwng iaith.

**- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

- Dylech gefnogi modelau clwstwr neu fodelau sydd wedi eu seilio ar bartneriaeth i alluogi ysgolion cyfrwng Cymraeg llai i gynnig llwybrau gwyddoniaeth llawn.

- Profwch dempledi adrodd ac offer digidol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg cyn eu cyflwyno.

**C6: Yn eich barn chi, a allai'r newidiadau arfaethedig i Ganllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru gael eu ffurfio neu'u newid er mwyn gwneud y canlynol:**

**- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Gellid cryfhau'r diwygiadau ymhellach trwy:

- Roi mwy o gefnogaeth ar gyfer fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holl ddeunyddiau cymwysterau a fframweithiau adrodd ar yr un pryd.
- Canllawiau cryfach ar sut gall ysgolion hyrwyddo cynnydd o ran y Gymraeg o fewn gwyddoniaeth, llwybrau galwedigaethol a chymhwysol.
- Cydnabod a lliniaru heriau cyflenwi'r gweithlu mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**C7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

Er bod y newidiadau hyn i'r canllawiau yn rhoi mwy o eglurhad ynghylch darpariaeth a disgwyliadau ar gyfer cynnydd yn y cymwysterau gwyddoniaeth, mae'r ansicrwydd ynghylch y cymhwyster gwyddoniaeth driphlyg yn parhau i achosi pryder. Mae absenoldeb disgwyliadau clir a chyson a sefydlogrwydd tymor hwy yn creu heriau i ysgolion o ran cynllunio'r cwricwlwm, amserlenni, staffio a recriwtio disgyblion. Mae'r ansicrwydd hwn yn peryglu amrywiad o ran cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth gwyddoniaeth driphlyg rhwng ysgolion, sydd yn ei dro yn codi pryderon am degwch i ddysgwyr ledled Cymru. Gallai eglurder a sicrwydd am statws a disgwyliadau'r cymhwyster gwyddoniaeth driphlyg helpu cefnogi cynnydd dysgwyr yn y gwyddorau. Yn yr hinsawdd bresennol o adnoddau cyfyngedig a gweithlu llai mewn nifer o feysydd pwnc, mae capasiti llawer o ysgolion i gyflwyno cwricwlwm o ansawdd uchel ar hyn o bryd yn cael ei ymestyn. Mae ein hadroddiadau thematig a'n tystiolaeth arolygu yn dweud bod hyn yn wir, nid yn unig ar gyfer y Gymraeg a gwyddoniaeth, ond mewn meysydd pwnc eraill. Felly, heb fwy o gymorth o ran adnoddau, hyfforddiant, recriwtio a datblygiad proffesiynol, mae gallu ysgolion i ddarparu darpariaeth o ansawdd da ar gyfer cymwysterau newydd yn parhau i fod yn ansicr.